# EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN

England & Wales · Charity number 1002715

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Other |
| **Registered** | 1991-04-26 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Clyngwyn<br>Bronwydd Arms<br>Carmarthen<br>SA33 6JA |
| **Phone** | 01267237962 |
| **Website** | www.eglwyscaerfyrddin.org |

## Activities

**Objects:** A) TO PROMOTE THE EVANGELICAL CHRISTIAN FAITH AND TO PROMOTE THE KNOWLEDGE,STUDY,UNDERSTANDING AND APPRECIATION OF THE BIBLE IN THE WELSH LANGUAGE. B) TO RELIEVE POVERTY IN THE AREA OF CARMARTHEN.

**Activities:** To promote the Evangelical Christian Faith and to promote the knowledge, study and understanding and appreciation of the Bible in the Welsh languageTo relieve poverty in the area of Carmarthen and beyond

## Classification

- **How:** Other Charitable Activities
- **What:** The Prevention Or Relief Of Poverty, Religious Activities
- **Who:** Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** CARMARTHEN AND ELSEWHERE
- Carmarthenshire

Downloaded from opencharities.uk/ew/1002715

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2024-12-31 | £122,398 | £39,891 | - | - |
| 2023-12-31 | £130,617 | £34,942 | - | - |
| 2022-12-31 | £58,536 | £36,335 | - | - |
| 2021-12-31 | £49,843 | £37,944 | - | - |
| 2020-12-31 | £61,911 | £41,551 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **MR PARRY DAVIES** | Chair | |
| JOHN ROBERTS | | |
| ROBERT RHYS | | |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1002715

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr

# Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

## Ionawr - Rhagfyr 2024

Rhif Elusen 1002715

**Rhagymadrodd**

Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi prif weithgareddau'r eglwys a'i sefyllfa dros y flwyddyn 2024. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb i ni fel eglwys, yn ein gwarchod a'n cynnal yn unol am flwyddyn arall.

**Gweithgareddau 2024**

Cyfarfodydd a Gweinidogaeth y Sul
Cynhaliwyd cyfarfodydd ddwywaith ar y Sul drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn. Hysbyswyd cyfarfodydd y Sul yn wythnosol ar ein gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, a lle y gellir gwrando ar bregethau'r eglwys. Hysbyswyd holl gyfarfodydd yr eglwys drwy gyfryngau cymdeithasol X (Trydar) a Facebook a darlledwyd negeseuon y Sul ac eraill ar You Tube. Roedd ein cyfarfodydd yn agored i bawb i'w mynychu a darparwyd mynediad rhithiol i oedfaon byw dros Zoom.

Gorffennwyd y gyfres o bregethau o lyfr y Salmau yn ystod y flwyddyn a pharhawyd a chyfres pregethau ar efengyl Marc. Gorffennwyd y gyfres pregethau ar aberthau llyfr Lefiticus gan ddechrau cyfres achlysurol o Ganiad Solomon ar suliau cymyndeb. Parhawyd hefyd a'r gyfres pregethau o Hebreaid 11 drwy gydol y flwyddyn. Pregethwyd ar destunau efengylu o broffwydoliaeth Eseia ynghyd ag amrywiol destynau efengylu o'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Ceir patrwm cyffredinol o bwysleisio addysgu yn y boreuau ac efengylu gyda'r hwyr.

Mae'r ddau henuriad a'r efengylydd, a fu'n pregethu fwyaf aml, yn ddiolchgar am bob cynhaliaeth. Nid yw sicrhau siaradwyr allanol ar gyfer y Sul yn waith hawdd, wrth i'r to hŷn o bregethwyr leihau'n eu nifer, a diolchwn am wasanaeth yr un ar bymtheg o siaradwr gwadd o eglwysi ledled Cymru a fu mor barod i gynorthwyo'r eglwys ar y Sul yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhai gwŷr iau. Gan gydnabod yn ddiolchgar gynhaliaeth rasol yr Arglwydd hyd yn hyn, barn yr henuriaid yw fod eu hoed a'u hamgylchiadau y cyfryw, fel y dylai'r eglwys yn awr edrych yn weddigar am olyniaeth i sicrhau parhad y weinidogaeth i'r dyfodol.

Amrywia'r niferoedd sy'n mynychu'r oedfaon o ryw ddeunaw i naw ar ugain a cheir rhyw gymaint o wahaniaeth rhwng cynulleidfa'r bore a'r hwyr, yn rannol oherwydd fod rhai'n ymuno a'r oedfa'n rhithiol gyda'r hwyr oherwydd cyflyrau iechyd. Yn ychwanegol at ei haelodau, sy'n mynychu'r oedfaon yn ffyddlon, ceir nifer o gredinwyr sy'n mynychu'n fyddlon ac yn cyfrannu i'r eglwys mewn ffyrdd eraill. Ychwanegwyd at nifer mynychwyr yr oedfaon wrth i deulu adleoli i'r dre, drwy penodiad i swydd lleol, a chafwyd tri ymholiad diweddar i ymaelodi â'r eglwys.

Efengylu
Yn ystod y flwyddyn bu'r Parch. Roger Thomas yn parhau i gysylltu gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghaerfyrddin a'r cylch, gan ymweld yn rheolaidd â mart anifeilaid y dre i greu a meithrin perthynas â ffermwyr lleol a masnachwyr eraill yno. Cynhaliodd un cyfarfod ar y mart adeg y Nadolig. Parhaodd ei waith fel caplan Heddlu Dyfed Powys ac ymweld â busnesau'r dre gan gynnwys busnesau'r farchnad nwyddau leol. Gwerthwyd dau gapel yn y dre yn ddiweddar lle roedd tystiolaeth efengylaidd gan leihau tystiolaeth weladwy i'r efengyl yn y dre. Cynyddodd presenoldeb crefyddau eraill a phresenoldeb gwrth Gristnogol yn y dre. O'r herwydd credwn y dylem geisio sefydlu tystiolaeth weladwy i'r Efengyl yn y dre ac y mae cael stondin yn y farchnad nwyddau yn cael ei ystyried. Parhaodd y Parch. Roger

Thomas ei gyswllt â'r grwp dysgu Cymraeg a drefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Gâr ac y mae un aelod arall o'r eglwys yn mynychu'r grwp hefyd.
Cynhaliwyd stondin yng Ngŵyl y Dref eleni, a mynychwyd pedair sioe amaethyddol leol hefyd, ynghyd â chefnogi'r gwaith efengylu yn y Sioe Fawr genedlaethol.

Parhaodd presenoldeb digidol yr eglwys ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn a pharhaodd y niferoedd a wrandawai ar bregethau wedi eu darlledu ar y Sul i fod yn niferus.

Cyfarfodydd arbennig

Cynhaliwyd cyfarfod dathlu a swper Gwyl Dewi dan arweiniad Roger Thomas a cynhaliwyd te ac oedfa diolchgarwch am y cynhaeaf yn y Celwrn. Cynhaliwyd oedfa garolau adeg y Nadolig gydag ymgais i wahodd rhai o'r tu allan i'r eglwys drwy ddosbarthu copiau niferus o'r cylchgrawn Holi. Gwelwyd rhai yn mynychu'r digwyddiadau hyn am y tro cyntaf.

Cyfarfodydd Canol Wythnos

Parhawyd i gynnal y cyfarfod gweddi ar nos Fercher yn y Celwrn, gan neilltuo un nos Fercher y mis i dderbyn adroddiad gan y Parch. Roger Thomas am waith y mis er mwyn gweddïo'n benodol am ei waith ac am gysylltiadau cenhadol eraill. Cafwyd arweiniad i weddi drwy ail ystyried rhannau o bregethau'r Sul blaenorol neu rannau penodol o'r ysgrythur.

Cyfarfodydd gwragedd

Cyhaliwyd cwrdd gwragedd 'Lydia' yn fisol yn y Celwrn, gan gynnwys rhai credinwyr nad ydynt yn aelodau o'r eglwys.

Cyswllt â'r gymuned

Trefnwyd sesynau crefftau a boreuau coffi er budd elusen Llyfrau Lafar Cymru gan godi dros fil o bunnau drwy werthiant y cynnyrch a chyfraniadau. Defnydiwyd y Celwrn hefyd yn achlusulol gan bwyllgor grwp cymunedol lleol.

Cefnogi gwaith Cristnogol ehangach

Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith MERF trwy gyfraniad blynyddol. Parhawyd i gefnogi gwaith Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru. Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith Emmanuel Durand yn Ffrainc. Parhaodd ymrwymiad yr eglwys i weddïo'n benodol am ddwy wedd ar waith cymdeithas cyfieithu'r beibl - Wycliffe - gan dderbyn gwybodaeth chwarterol. Cawsom ymweliad hefyd yn ystod y flwyddyn gan gynrychiolydd Cymru o Sefydliad y Cristion.

Cyswllt ag eglwysi eraill

Parhaodd y cyswllt a nifer o eglwysi efengylaidd eraill yng Nhymru drwy ymweliadau pregethwyr o'r eglwysi hynny ag Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin. Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol rhwng arweinwyr yr eglwysi efengylaidd Cymraeg, i rannu gwybodaeth ac i gydweddio. Daeth grwp o fyfyrwyr o eglwys Ebeneser Abertawe i'r Celwrn lle traddodwyd darlith hanesyddol gan y Dr. John Aaron, cyn ymweld â mannau eraill yn y cyffuniau sy'n bwysig yn hanes yr Efengyl yng Ngymru.

Yr Adeilad

Diolchwn na fu rhaid defnyddio offer pwmpio dŵr ar un adeg yn ystod y flwyddyn ond roedd yn gysur gwybod fod yr offer yn ei le pe byddai bygythiad i'r Celwrn gan lifogydd.

**Sefyllfa Ariannol**
Caed £82,506.88 o weddillion dros wariant ar ddiwedd 2024. Mae incwm yr eglwys ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal gweithiwr ond gyda chostau eraill, disgwylir y bydd y galw ar ryw gymaint o'r gweddillion yn parhau i'r dyfodol. Nid oes ansicrwydd ariannol sy'n peryglu gallu'r elusen i barhau ar hyn o bryd. Gweler y fantolen ariannol amgaeedig am y flwyddyn 2024.

**Strwythur Llywodraethiant a Rheolaeth**
Strwythur arweinyddiaeth yr eglwys yw dau henuriad a thri diacon. Mae'r eglwys wedi ei chofrestri'n elusen a lywodraethir gan Weithred Ymddiriedolaeth fel Ymddiriedolaeth Elusennol a wnaed ar 27 Chwefror 1991. Ar hyn o bryd, ceir tri ymddiriedolwr i'r Elusen a adweinir fel Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin (Rhif Cofrestru 1002715), sef dau henuriad Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin : Robert Rhys a Parry Davies ac un aelod o'r eglwys, sef John Roberts.



A Parry Davies

(Ar ran ymddiriedolwyr Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin)

Dyddiad : 30 Hydref 2025

Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

**Cyfrif Derbynion a Gwariant**

**1af Ionawr 2024 - 31ain Rhagfyr 2024**

| **Derbynion** | | £ |
|---|---|---|
| Mantol Banc ar 01/01/24 | | 95,675.58 |
| Archebion Banc | | 22,400.00 |
| Casgliadau Rhydd | | 4,290.00 |
| Llog ar y gronfa | | 32.43 |
| | | 122,398.01 |

| **Gwariant** | £ | |
|---|---|---|
| Cyflog y Gweithiwr | 19,939.67 | |
| Treth Incwm | 1,892.00 | |
| Yswiriant Gwladol | 2,639.82 | |
| Costau | 763.41 | |
| Nest (pensiwn) | 1,780.80 | |
| Pregethwyr Gwadd | 1,280.00 | |
| Gwaith Cenhadol (MEC,UFM,Merf) | 4,500.00 | |
| Costau'r Adeilad | 1,207.44 | |
| Nwy,Trydan,Dŵr | 2,493.57 | |
| Yswiriant | 1,715.24 | |
| Gwefan,Zoom,BT | 872.65 | |
| Ad-daliadau | 756.53 | |
| Archwilio'r Cyfrifon | 50.00 | |
| | | 39,891.13 |
| | Gweddill Derbynion dros Gwariant | 82,506.88 |
| | Mantol Banc ar 31.12.2024 | 82,506.88 |

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN. | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31 Rhagfyr 2024 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1002715 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

[~~Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o~~ [
]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | [signature] | **Dyddiad:** | 27/10/2025 |
| **Enw:** | IEUAN JONES | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | BA ACCOUNTING AND FINANCE | | |

Cyfeiriad,

| |
|---|
| GER Y NANT |
| 3 MAES DOLAU IDOLE |
| CAERFYRDDIN SA32-8DQ |

## Adran B — Datgeliad

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr

# Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

## Ionawr - Rhagfyr 2023

Rhif Elusen 1002715

## Rhagymadrodd

Bwriad yr adroddiad hwn yw egluro sut y gwnaeth yr eglwys geisio cyflawni ei nod a'i hamcanion am y flwyddyn 2023, a rhoi crynodeb o dderbynion a gwariant ariannol yr eglwys am y flwyddyn.

Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb i ni fel eglwys, yn ein gwarchod a'n cynnal yn unol am flwyddyn arall.

## Nod ac amcanion

Nod ac amcanion Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin fel elusen gofrestredig yw :

- Hyrwyddo'r Ffydd Gristnogol Efengylaidd a hyrwyddo gwybodaeth, astudio, deall a gwerthfawrogiad o'r Beibl yn Gymraeg a
- Lleddfu tlodi yn ardal Caerfyrddin

Anelwyd i gyflawni'r amcanion hyn drwy waith yr Eglwys a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, gan geisio sicrhau budd cyhoeddus drwy holl brif weithgareddau'r eglwys.

## Cyflawniadau a heriau 2023

Cyfarfodydd a Gweinidogaeth y Sul

Cynhaliwyd cyfarfodydd ddwywaith ar y Sul drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn. Hysbyswyd cyfarfodydd y Sul yn wythnosol ar ein gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, a lle y gellir gwrando ar bregethau'r eglwys. Hysbyswyd yr holl gyfarfodydd drwy gyfryngau cymdeithasol X (Trydar) a Facebook a darlledwyd negeseuon y Sul ac eraill ar You Tube. Roedd ein cyfarfodydd yn agored i bawb i'w mynychu.

Parhawyd â'r gyfres o bregethau o lyfr y Salmau dros y flwyddyn. Dechreuwyd cyfres newydd o bregethau ar efengyl Marc a pharhawyd hefyd a chyfresi ar aberthau llyfr Lefiticus a Hebreaid 11. Pregethwyd ar destunau amrywiol o'r Hen Destament, megis llyfrau Esther, Sechareia a Malachi ynghyd â thestunau efengylu o amrywiol lyfrau a llythyrau'r Testament Newydd.

Mae'r ddau henuriad a'r efengylydd, a fu'n pregethu fwyaf aml, yn ddiolchgar am bob cynhaliaeth. Nid yw sicrhau siaradwyr allanol ar gyfer y Sul yn waith hawdd, wrth i'r to hŷn o bregethwyr leihau'n eu nifer, a diolchwn am wasanaeth yr un ar bymtheg o siaradwr gwadd o eglwysi ledled Cymru a fu mor barod i gynorthwyo'r eglwys ar y Sul yn ystod y flwyddyn.

Efengylu

Yn ystod y flwyddyn bu'r Parch. Roger Thomas yn parhau i gysylltu gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghaerfyrddin a'r cylch, gan ymweld yn rheolaidd a 'Mart' anifeilaid y dre i greu a meithrin perthynas â ffermwyr lleol a masnachwyr eraill yno. Parhaodd ei waith fel caplan Heddlu Dyfed Powys ac ymweld a busnesau'r dre gan gynnwys busnesau'r farchnad nwyddau leol.  Parhaodd y Parch. Roger Thomas ei

gyswllt â'r grwp dysgu Cymraeg a drefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Gar, a fu'n cyfarfod yng nghanolfan iaith yr Atom yn y dref.

Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu a chynnal stondyn yng Ngwyl y Dref eleni, wedi i'r trefnwyr wrthod ein cais i wneud hynny y flwyddyn flaenorol. Mynychwyd pedair sioe amaethyddol leol hefyd, ynghyd â chefnogi'r gwaith efengylu yn y Sioe Fawr genedlaethol.

Parhaodd presenoldeb digidol yr eglwys ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn a pharhaodd y niferoedd a wrandawai ar bregethau wedi eu darlledu ar y Sul i fod yn niferus.

<u>Cyfarfodydd arbennig</u>
Cynhaliwyd cyfarfod dathlu Gwyl Dewi gyda chawl a sgwrs i ddilyn gan Robert Rhys i goffau tri chan mlwyddiant geni Peter Williams. Cafwyd cyfarfod diolchgarwch am y cynhaeaf yn y Celwrn dan arweiniad Isias Grandis a chynhaliwyd oedfa garolau adeg y Nadolig.

<u>Cyfarfodydd Canol Wythnos</u>
Parhawyd i gynnal y cyfarfod gweddi ar nos Fercher yn y Celwrn, gan neilltuo un nos Fercher y mis i dderbyn adroddiad gan y Parch. Roger Thomas am waith y mis er mwyn gweddïo'n benodol am ei waith ac am gysylltiadau cenhadol eraill.

<u>Cyfarfodydd gwragedd</u>
Cyhaliwyd cwrdd gwragedd 'Lydia' yn fisol yn y Celwrn.

<u>Cyswllt â'r gymuned</u>
Trefnwyd sesynau crefftau a bore coffi er budd banc bwyd lleol gan godi £850.00 trwy werthiant y cynnyrch a chyfraniadau.

<u>Cefnogi gwaith Cristnogol ehangach</u>
Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith MERF trwy gyfraniad blynyddol. Parhawyd i gefnogi gwaith Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru. Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith Emmanuel Durand yn Ffrainc. Parhaodd ymrwymiad yr eglwys i weddïo'n benodol am ddwy wedd ar waith cymdeithas cyfieithu'r beibl - Wycliffe - gan dderbyn gwybodaeth chwarterol.

<u>Cyswllt ag eglwysi eraill</u>
Parhaodd y cyswllt a nifer o eglwysi efengylaidd eraill yng Nhymru drwy ymweliadau pregethwyr o'r eglwysi hynny a Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin. Tristwch mawr i'r eglwys oedd penderfyniad arweinwyr Eglwys Efengylaidd Saesneg Caerfyrddin i ddwyn yr achos i ben yn 2023, yn dilyn ymadawiad eu gweinidog a gwerthu eu hadeilad y flwyddyn flaenorol.

<u>Yr Adeilad</u>
Diolchwn na fu rhaid defnyddio offer pwmpio dŵr ar un adeg yn ystod y flwyddyn ond roedd yn gysur gwybod fod yr offer yn ei le pe byddai bygythiad i'r Celwrn gan lifogydd.

**Sefyllfa Ariannol**

Derbyniodd yr eglwys rodd o £75,808.50 o weddillion asedau'r eglwys efengylaidd saesneg, yn arwydd o'r cyswllt agos a fu rhyngom fel chwaer eglwysi dros lawer o flynyddoedd, wedi i'w hymddiriedolwyr ac aelodau bleidleisio'n unfrydol o blaid gwneud hynny.

Caed £95,675.58 o weddillion dros wariant ar ddiwedd 2023 o'r herwydd. Mae incwm yr eglwys ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal gweithiwr ond gyda chostau eraill, disgwylir y bydd y galw ar ryw gymaint o'r gweddillion yn parhau i'r dyfodol**.** Nid oes ansicrwydd ariannol sy'n peryglu gallu'r elusen i barhau ar hyn o bryd. Gweler y fantolen ariannol amgaeedig am y flwyddyn 2023.

**Strwythur Llywodraethiant a Rheolaeth**
Strwythur arweinyddiaeth yr eglwys yw dau henuriad a thri diacon.

Llywodraethir yr elusen gan Weithred Ymddiriedolaeth fel Ymddiriedolaeth Elusennol a wnaed a 27 Chwefror 1991.

Ar hyn o bryd, ceir tri ymddiriedolwr i'r Elusen a adweinir fel Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin (Rhif Cofrestru 1002715), sef dau henuriad Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin : Robert Rhys a Parry Davies ac un aelod o'r eglwys, sef John Roberts. Dewisir ymddiriedolwyr o blith aelodau a swyddogion yr Eglwys mewn cyfarfod eglwys. Penodwyd yr ymddiriedolwyr presennol yn 1991.




A Parry Davies

(Ar ran ymddiriedolwyr Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin)

Dyddiad : 30 Hydref 2024

Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

Cyfrif Derbynion a Gwariant

1af Ionawr 2023 - 31ain Rhagfyr 2023

| Derbynion | | £ |
|---|---|---|
| Mantol Banc ar 01/01/23 | | 22,200.36 |
| Archebion Banc | | 22,535.98 |
| Casgliadau Rhydd | | 2,238.20 |
| Arian o C.E.CH | | 75,808.50 |
| Rhodd Gwyneth Gravell Est | | 2,500.00 |
| Rent | | 30.00 |
| Ad-daliad Rhodd Gymorth | | 5,278.20 |
| Llog ar y gronfa | | 26.71 |
| | | 130,617.95 |
| **Gwariant** | £ | |
| Cyflog y Gweithiwr | 16,481.22 | |
| Treth Incwm | 1,845.00 | |
| Yswiriant Gwladol | 2,939.95 | |
| Costau | 522.96 | |
| Nest (pensiwn) | 1,708.71 | |
| Pregethwyr Gwadd | 1,380.00 | |
| Gwaith Cenhadol (MEC,UFM,Merf) | 4,500.00 | |
| Costau'r Adeilad | 731.04 | |
| Nwy,Trydan,Dŵr | 2,116.89 | |
| Yswiriant | 1,542.59 | |
| Gwefan,Zoom,BT | 843.76 | |
| Ad-daliadau | 280.25 | |
| Archwilio'r Cyfrifon | 50.00 | |
| | | 34,942.37 |
| Gweddill Derbynion dros Gwariant | | 95,675,58 |
| Mantol Banc ar 31.12.2023 | | 95,675.58 |

COMISIWN ELUSENNAU AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

| Adran A | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31/12/2023 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1002715 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

~~[Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o [~~ ]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (~~heblaw'r hyn a ddatgelir isod~~ *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | B W Jones | **Dyddiad:** | 30/10/2024 |
| **Enw:** | IEUAN JONES | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | BA ACCOUNTING AND FINANCE | | |

**Cyfeiriad:** GER Y NANT
3 MAES DOLAU IDOLE
CAERFYRDDIN SA32 8DQ

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

**Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.**

EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN

England & Wales - Charity number 1002715

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr

# Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

# Ionawr - Rhagfyr 2022

Rhif Elusen 1002715

## Rhagymadrodd

Ceir yn yr adroddiad hwn y modd y bu i'r eglwys geisio cyflawni ei nod a'i hamcanion am y flwyddyn 2022, ynghyd â chrynodeb o dderbynion a gwariant ariannol yr eglwys am 2022.

Erbyn dechrau'r flwyddyn, gwelwyd lliniaru ar fesurau Covid 19 a effeithiodd waith yr eglwys y flwyddyn flaenorol, er i rai cyfyngiadau, megis gwisgo mygydau, barhau yn ystod misoedd cynnar 2022. Er hynny, diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb i ni fel eglwys drwy'r cwbl, yn ein gwarchod a'n cynnal yn unol am flwyddyn arall.

## Nod ac amcanion

Nod ac amcanion Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin fel elusen gofrestredig yw :

- Hyrwyddo'r Ffydd Gristnogol Efengylaidd a hyrwyddo gwybodaeth, astudio, deall a gwerthfawrogiad o'r Beibl yn Gymraeg a
- Lleddfu tlodi yn ardal Caerfyrddin

Anelwyd i gyflawni'r amcanion hyn drwy waith yr Eglwys a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, gan geisio sicrhau budd cyhoeddus drwy holl brif weithgareddau'r eglwys.

## Cyflawniadau a heriau 2022

Cyfarfodydd a Gweinidogaeth y Sul
Cynhaliwyd cyfarfodydd ddwywaith ar y Sul drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn. Hysbyswyd cyfarfodydd y Sul yn wythnosol ar ein gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, a lle y gellir gwrando ar bregethau'r eglwys. Hysbyswyd yr holl cyfarfodydd drwy gyfryngau cymdeithasol Trydar a Facebook a darlledwyd negeseuon y Sul ac eraill ar You Tube. Roedd ein cyfarfodydd yn agored i bawb i'w mynychu.

Parhawyd â'r gyfres o bregethau o lyfr y Salmau dros y flwyddyn. Gorffennwyd y gyfres ar lyfr Haggai, a ddilynwyd gan gyfresi ar gariad o 1 Ioan ac 1 Corinthiaid 13.

Dechreuwyd hefyd ar gyfresi ar aberthau llyfr Lefiticus a Hebreaid 11, sy'n parhau. Pregethwyd ar destunau amrywiol o'r Hen Destament, yn enwedig o broffwydoliaethau Jeremenia, Eseciel a Daniel ynghyd â thestunau efengylu o amrywiol lyfrau a llythyrau'r Testament Newydd.

Mae'r ddau henuriad a'r efengylydd, a fu'n pregethu fwyaf aml, yn ddiolchgar am bob cynhaliaeth. Nid yw sicrhau siaradwyr allanol ar gyfer y Sul yn waith hawdd, wrth i'r to hŷn o bregethwyr leihau'n eu nifer, a diolchwn am wasanaeth y deuddeg siaradwr gwadd o eglwysi ledled Cymru a fu mor barod i gynorthwyo'r eglwys ar y Sul yn ystod y flwyddyn.

Efengylu
Yn ystod y flwyddyn, ailsefydlwyd patrwm arferol y Parch. Roger Thomas o gysylltu gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghaerfyrddin a'r cylch. Ailagorodd y

‘Mart’ anifeiliaid wythnosol o dan reolaeth cwmni newydd, gan greu cyfle eto i gysylltu â ffermwyr lleol a masnachwyr eraill yno. Codwyd y gwaharddiad ar ymweld â gorsaf Heddlu Dyfed Powys fel caplan. Agorodd y mwyafrif o fusnesau’r dre hefyd gan gynnwys busnesau’r farchnad nwyddau leol.

Cynhaliwyd Gŵyl y Dref yn ystod y flwyddyn ond gwrthodwyd ein cais i gael stondin yno. Mynychwyd pedair sioe amaethyddol leol serch hynny, ynghyd â chefnogi’r gwaith efengylu yn y Sioe Fawr genedlaethol. Bu’r Parch. Roger Thomas yn helpu gwaith efengylu Mudiad Efengylaidd Cymru hefyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

Parhaodd y Parch. Roger Thomas ei gyswllt â’r grwp dysgu Cymraeg a drefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Gar, a fu’n cyfarfod yng nghanolfan iaith yr Atom yn y dref.

Parhaodd presenoldeb digidol yr eglwys ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn ac yn naturiol gwelwyd lleihad yn y niferoedd a wyliai ac a wrandawai ar oedfaon dros y we wrth i unigolion ddychwelyd i’w heglwysi eu hunain. Serch hynny, parhaodd y niferoedd a wrandawai ar bregethau wedi eu darlledu ar y Sul i fod cymaint a hanner cant.

<u>Cyfarfodydd arbennig</u>
Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y cynhaeaf yn y Celwrn dan arweiniad y Parch. Ifan Mason Davies. Llwyddwyd i gynnal cwrdd diolchgarwch hefyd ar safle rhandiroedd y dre. Arweiniodd Y Parch. Roger Thomas oedfa garolau adeg y Nadolig.

<u>Cyfarfodydd Canol Wythnos</u>
Parhawyd i gynnal y cyfarfod gweddi ar nos Fercher yn y Celwrn, gan neilltuo un nos Fercher y mis i dderbyn adroddiad gan y Parch. Roger Thomas am waith y mis er mwyn gweddïo’n benodol am ei waith ac am gysylltiadau cenhadol eraill.

<u>Cyfarfodydd gwragedd</u>
Cyhaliwyd cwrdd gwragedd ‘Lydia’ yn rhithiol tan fis Ebrill, cyn ailgychwyn yn fisol yn y Celwrn.

<u>Cyswllt â’r gymuned</u>
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Rhandiroedd Caerfyrddin yn y Celwrn yn ystod y flwyddyn a threfnwyd sesiynau crefftau a bore coffi er budd elusen leol DPJ Foundation, sy’n cefnogi iechyd meddwl ymhlith y gymuned amaethyddol.

<u>Cefnogi gwaith Cristnogol ehangach</u>
Mae’r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith MERF trwy gyfraniad blynyddol. Parhawyd i gefnogi gwaith Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru. Mae’r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith Emmanuel Durand yn Ffrainc. Parhaodd ymrwymiad yr eglwys i weddïo’n benodol am ddwy wedd ar waith cymdeithas cyfieithu’r beibl - Wycliffe - gan dderbyn gwybodaeth chwarterol.

<u>Cyswllt ag eglwysi eraill</u>
Parhaodd y cyswllt agos ag Eglwys Efengylaidd Saesneg Caerfyrddin yn 2022 gan gynnal cyfarfod gweddi ar y cyd yn ystod y flwyddyn. Yr oedd yn dristwch, er hynny

fod eu gweinidog wedi gadael yr eglwys, eu hadeilad wedi ei werthu a thrafodaethau wedi gorfod digwydd yn ystod y flwyddyn am barhad yr eglwys i'r dyfodol.

Yr Adeilad

Diolchwn na fu rhaid defnyddio offer pwmpio dŵr ar un adeg yn ystod y flwyddyn ond roedd yn gysur gwybod fod yr offer yn ei le pe byddai bygythiad i'r Celwrn gan lifogydd.

Gwnaed gwelliannau i'r system sain yn ystod y flwyddyn drwy ychwanegu dau feicroffon ym mhrif neuadd y Celwrn i fedru gwrando ar gyfraniadau o'r gynulleidfa.

**Sefyllfa Ariannol**

Caed £22,200.36 o weddillion dros wariant ar ddiwedd 2022. Mae'r swm sylweddol o weddillion a oedd wedi crynhoi ers prynu'r adeilad, bellach wedi lleihau yn unol â blaenoriaeth yr eglwys o gyflogi gweithiwr. Mae incwm yr eglwys ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal gweithiwr ond gyda chostau eraill, disgwylir y bydd y galw ar ryw gymaint o'r gweddillion yn parhau i'r dyfodol. Nid oes ansicrwydd ariannol sy'n peryglu gallu'r elusen i barhau ar hyn o bryd. Gweler y fantolen ariannol amgaeedig am y flwyddyn 2022.

**Strwythur Llywodraethiant a Rheolaeth**

Strwythur arweinyddiaeth yr eglwys yw dau henuriad a thri diacon.

Llywodraethir yr elusen gan Weithred Ymddiriedolaeth fel Ymddiriedolaeth Elusennol a wnaed a 27 Chwefror 1991.

Ar hyn o bryd, ceir tri ymddiriedolwr i'r Elusen a adweinir fel Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin (Rhif Cofrestru 1002715), sef dau henuriad Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin : Robert Rhys a Parry Davies ac un aelod o'r eglwys, sef John Roberts. Dewisir ymddiriedolwyr o blith aelodau a swyddogion yr Eglwys mewn cyfarfod eglwys. Penodwyd yr ymddiriedolwyr presennol yn 1991.



A Parry Davies

(Ar ran ymddiriedolwyr Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin)

Dyddiad : 30/10/23

Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

Cyfrif Derbynion a Gwariant

1af Ionawr 2022 - 31ain Rhagfyr 2022

| Derbynion | | £ |
|---|---|---|
| Mantol Banc ar 01/01/22 | | 11,898.86 |
| Archebion Banc | | 22,841.92 |
| Casgliadau Rhydd | | 7,950.00 |
| Rent | | 705.00 |
| Ad-daliad Rhod Gymorth (3bl) | | 15,135.73 |
| Llog ar y gronfa | | 4.80 |
| | | 58,536.31 |
| | | |
| Gwariant | £ | |
| Cyflog y Gweithiwr | 17,452.02 | |
| Treth Incwm | 1,846.00 | |
| Yswiriant Gwladol | 3,382.29 | |
| Costau | 694.96 | |
| Nest (pensiwn) | 1,492.44 | |
| Pregethwyr Gwadd | 1,190.00 | |
| Gwaith Cenhadol (MEC,UFM,Merf) | 4,500.00 | |
| Costau'r Adeilad | 665.04 | |
| Nwy,Trydan,Dwr | 2,554.97 | |
| Yswiriant | 1,445.32 | |
| Gwefan,Zoom,BT | 814.72 | |
| Ad-daliadau | 248.19 | |
| Archwilio'r Cyfrifon | 50.00 | |
| | | 36,335.95 |
| Gweddill Derbynion dros Gwariant | | 22,200.36 |
| Mantol y Banc ar 31.12.2022 | | 22,200.36 |

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

| Adran A | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol |
|---|---|

**Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau:** EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN

**Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu:** 31 Rhagfyr 2022

**Rhif yr Elusen (os oes):** 1002715

**I'w gweld ar dudalennau:**

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

[Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o [ ]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

**Llofnodwyd:** [signature] **Dyddiad:** 30/10/2023

**Enw:** IEUAN JONES

**Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** BA ACCOUNTING AND FINANCE

**Cyfeiriad:**

| |
|---|
| 3 MAES DOLAU |
| IDOLE |
| CAERFYRDDIN SA32 8DQ |

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |

EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN

England & Wales - Charity number 1002715

# Accounts

# Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

# Adroddiad Blynyddol

# Ionawr - Rhagfyr 2021

Rhif Elusen 1002715

## Rhagymadrodd

Gellid disgrifio 2021 fel blwyddyn o ddatgloi graddol o gyfyngiadau Covid 19, a thra bu i lawer ohonynt barhau am fisoedd lawer, gwelwyd lliniaru ar fesurau a oedd yn effeithio gwaith yr eglwys erbyn diwedd y flwyddyn. Er i'r heriau hyn, na welsom eu tebyg yn hanes ein heglwys, barhau o 2020, diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb i ni fel eglwys drwy'r cwbl, yn ein gwarchod a'n cynnal yn unol am flwyddyn arall. Ceir yn yr adroddiad y modd y bu i'r eglwys geisio cyflawni ei nod a'i hamcanion am y flwyddyn 2021, ynghyd â chrynodeb o dderbynion a gwariant ariannol yr eglwys am 2021.

## Nod ac amcanion

Ceisiwyd cyflawni'r cyfrifoldeb i sicrhau budd cyhoeddus drwy holl brif weithgareddau'r yr eglwys. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Sul a chyfarfod canol wythnos drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn, er fod gyfyngiadau canllawiau'r Llywodraeth wedi peri i ni newid dull ein cyfarfodydd am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Hysbyswyd cyfarfodydd y Sul yn wythnosol ar ein gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, lle y gellir gwrando ar bregethau'r eglwys. Hysbyswyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn hefyd drwy gyfryngau cymdeithasol Trydar a Facebook a darlledwyd negeseuon y Sul ac eraill ar You Tube.
Roedd ein cyfarfodydd yn agored i bawb i'w mynychu ond oherwydd y cyfyngiadau, ni chynhaliwyd cymaint o gyfarfodydd arbennig eleni. Nid oedd modd defnyddio'r Celwrn ychwaith i hybu gwaith elusennau lleol er i sesynau crefft gael eu cynnal tuag at ddiwedd y flwyddyn.

## Yr hyn a gyflawnwyd a'r heriau yn 2021

<u>Y Weinidogaeth</u>
Parhawyd a'r gyfres o bregethau o lyfr y Salmau (Salm 109 hyd at Salm 119) dros y flwyddyn a pharhaodd y gyfres ar Lyfr y Gwas ym mhroffwydoliaeth Eseia,( penodau 54 a 55) a ddilynnwyd gan ddechrau cyfres ar lyfr Haggai. Pregethwyd hefyd ar destunau amrywiol o'r Hen Destament a'r Testament Newydd, yn arbennig wrth gyflwyno'r efengyl.

Mae'r ddau henuriad a'r efengylyd, a fu'n pregethu fwyaf aml, yn ddiolchgar am bob cynhaliaeth a diolchwn hefyd am wasanaeth y deg siaradwyr gwadd, a fu mor barod i gynorthwyo'r eglwys yn ystod y flwyddyn. Serch hynny, nid yw sicrhau siaradwyr allanol ar gyfer y Sul yn waith hawdd, wrth i'r to hŷn o bregethwyr heneiddio a lleihau'n eu nifer.

<u>Efengylu</u>
Parhaodd effaith y pandemig o darfu'n sylweddol ar batrwm arferol y Parch. Roger Thomas o gysylltu gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghaerfyrddin a'r cylch. Doedd dim modd ymweld â'r 'Mart' anifeiliaid wythnosol i gysylltu a ffermwyr lleol a masnachwyr eraill, gan fod y Mart wedi ei chau drwy'r cyfnod. Gwaharddwyd ymweld â gorsaf Heddlu Dyfed Powys fel caplan hefyd, gyda'r cyswllt yn parhau drwy alwadau ffôn yn unig. Yn yr un modd roedd y mwyafrif o fusnesau'r dre, gan gynnwys busnesau'r farchnad nwyddau leol, wedi eu cau am gyfnod helaeth neu'n cyfyngu eu cyswllt â cwsmeriaid ac ymwelwyr wrth ail agor yn raddol.
Am yr un rhesymau, ni lwyddwyd ychwaith i ddatblygu gwaith newydd a ystyriwyd, megis cyfarfod dysgwyr i Gristnogion a fyddai am ddysgu ond a fyddai'n agored i

eraill, boreau coffi rheolaidd i gefnogi elusen ddyngarol neu gyfarfodydd efengylu amser cinio. Am yr ail flwyddyn, ni chynhaliwyd Gŵyl y Dref na sioeau amaethyddol lleol na chenedlaethol ychwaeth, yr oeddem wedi bwriadu eu mynychu a gohiriwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, lle yr oedd y Parch. Roger Thomas yn bwriadu cynorthwyo tim efengylu Mudiad Efengylaidd Cymru.
Er gwaetha'r siomedigaethau hyn, cafwyd nifer o gyfleoedd i wasanaethu mewn angladdau ac i gefnogi unigolion hŷn a bregus a oedd wedi eu cyfyngu i'w cartrefi. Daeth cyfle hefyd i;r Parch. Roger Thomas ymuno a grwp *Coffi a Chlonc*, wedi ei drefnu gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Gar, a gynhaliwyd yn rhithiol ddechrau'r flwyddyn ond a fu'n cyfarfod yng nghanolfan iaith yr Atom yn ddiwedarach yn y flwyddyn.
Parhaodd presenoldeb digidol yr eglwys ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn a pharhaodd y niferoedd a wrandawai ar bregethau a oedd wedi eu darlledu ar y Sul yn uchel. Lluniwyd a darlledwyd ar You Tube, gyfweliadau a thystiolaethau aelodau o'r eglwys yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn, ynghyd â neges byr am y Pasg. Bu gostyngiad yn y niferoedd a ymunai â'r cyfarfodydd rhithiol wrth i'r gynulleidfa ddychwelyd i'r Celwrn ar gyfer oedfaon y Sul a chanol wythnos.

<u>Oedfaon y Sul</u>
Parhawyd i gynnal oedfa'r bore yn y Celwrn gan barhau i gwrdd yn rhithiol gyda'r hwyr tan fis Mehefin, pan ail gychwynnwyd cynnal oedfaon yr hwyr hefyd yn adeilad yr Eglwys. Ym mis Mehefin hefyd, llaciwyd ar y canllawiau i ganiatau canu mawl yn ein haddoliad o fewn yr adeilad, tra buom yn canu emynau hyd at hynny y tu allan i'r Celwrn pan fyddai'r tywydd yn ddigon braf. Parhaodd yr henuriaid ac efengylydd yr eglwys bregethu'n aml yn ystod 2021 ond braf oedd medru croesawu mwy o siaradwyr gwadd yn ol i weinidogaethu i'r eglwys yn ystod y flwyddyn.

Ail gychwynnwyd oedfaon cymundeb hefyd yn ystod y flwyddyn, ar brynhawniau Sul cynta'r mis i gychwyn, ac yna'n dilyn oedfaon y bore fel cynt, wrth i sefyllfa'r Covid wella'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd elfennau a chyfarpar i leihau'r perygl o drosglwyddo heintiau.

<u>Cyfarfodydd arbennig</u>
Dathlwyd dydd Gwyl Dewi ar 1 Mawrth 2021 gyda chyflwyniad gan Robert Rhys ar Gruffydd Jones a chyfieithwyr Wycliffe. Cynhaliwyd oedfa garolau hefyd adeg y Nadolig dan arweiniad Y Parch. Roger Thomas ac oedfa fore dydd Nadolig.

<u>Cyfarfodydd Canol Wythnos</u>
Parhawyd i gynnal y cyfarfod gweddi ar nos Sul nes ail gychwyn oedfa nos Sul yn y Celwrn yn ail hanner y flwyddyn. Drwy hanner cynta'r flwyddyn, cynhaliwyd astudiaeth feiblaidd fwy sylweddol ar nosweithiau Mercher ar bwnc Diwygiad, gan seilio'r astudiaethau ar lyfr Dr. Martyn Lloyd Jones ar y pwnc. Rhannwyd y cyfrifoldeb o baratoi ac arwain rhwng yr henuriaid a gwerthfawrogwyd y gyfres yn fawr. Parhawyd i neilltuo un nos Fercher y mis i dderbyn adroddiad gan y Parch. Roger Thomas am waith y mis fel modd i weddïo'n benodol am ei waith ac am gysylltiadau cenhadol eraill.

<u>Cyfarfodydd gwragedd</u>
Ni fu cyfarfodydd gwragedd bob pythefnos drwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn ond cyfunwyd tair sesiwn grefftau ac astudiaethau misol am dri mis cyn y Nadolig, dan arweiniad Mrs. Ann Morgan.

### Cyswllt â'r gymuned

Nid oedd modd cynnig defnydd y Celwrn i Gymdeithas Rhandiroedd Caerfyrddin yn ystod y flwyddyn na chynnal boreuau coffi er budd elusen leol.

### Cefnogi gwaith Cristnogol ehangach

Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith MERF trwy gyfraniad blynyddol. Parhawyd i gefnogi gwaith Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru. Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith Emmanuel Durand yn Ffrainc. Parhaodd ymrwymiad yr eglwys i weddïo'n benodol am ddwy wedd ar waith cymdeithas cyfieithu'r beibl - Wycliffe, gan dderbyn gwybodaeth chwarterol.

### Cyswllt ag eglwysi eraill

Ni chynhaliwyd Cymanfa Eglwysi'r De yn 2021. Parhaodd y cyswllt agos ag Eglwys Efengylaidd Saesneg Caerfyrddin eto yn 2021 er nad oedd modd cynnal cyrddau ar y cyd fel cynt. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi ar y cyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr Adeilad

Effeithiwyd yr adeilad ryw ychydig gan lifogydd ar dechrau'r flwyddyn er i'r pwmp dŵr a brynnwyd y flwyddyn flaenorol leihau'r effeithiau posib yn sylweddol, gan ein galluogi i ddychwelyd i'r adeilad yn gyflym. Penderfynnwyd prynnu pwmp ychwanegol gyda chymorth grant 50% gan yr Awdurdod Lleol, i ddyblu maint y dwr y gellid ei bwmpio allan o'r selar adeg llifogydd.

### Adroddiad Ariannol

Caed £11,898.86 o weddillion dros wariant ar ddiwedd 2021. Mae'r swm sylweddol o weddillion a oedd wedi crynhoi ers prynu'r adeilad bellach wedi lleihau yn unol â blaenoriaeth yr eglwys o gyflogi gweithiwr. Mae incwm yr eglwys ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal gweithiwr ond gyda chostau eraill, disgwylir y bydd y galw ar ryw gymaint o'r gweddillion yn parhau i'r dyfodol. Gweler y fantolen ariannol amgaeedig am y flwyddyn 2021.



A Parry Davies

(Ar ran ymddiriedolwyr Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin)

Dyddiad : 29/10/22

Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

Cyfrif Derbynion a Gwariant

1af Ionawr 2021 - 31ain Rhagfyr 2021

| Derbynion | | £ |
|---|---|---|
| Mantol Banc ar 01/01/21 | | 20,359.29 |
| Archebion Banc | | 21,907.92 |
| Casgliadau Rhydd | | 6,075.10 |
| Grant o'r Cyngor Sir | | 1,500.00 |
| Llog ar y gronfa | | 0.79 |
| | | 49,843.10 |

| Gwariant | £ | |
|---|---|---|
| Cyflog y Gweithiwr | 17,347.16 | |
| Treth Incwm | 1,565.40 | |
| Yswiriant Gwladol | 2,875.20 | |
| Costau | 547.39 | |
| Nest (pensiwn) | 1,492.44 | |
| Pregethwyr Gwadd | 440.00 | |
| Gwaith Cenhadol | 4,500.00 | |
| Costau'r Adeilad | 4,368.91 | |
| Nwy,Trydan,Dwr | 2,201.17 | |
| Yswiriant | 1,343.53 | |
| Ad-daliadau | 49.94 | |
| Gwefan,Zoom,BT | 1,163.10 | |
| Archwilio'r Cyfrifon | 50.00 | |
| | | 37,944.24 |
| | Gweddill Derbynion dros Gwariant | 11,898.86 |
| | Mantol y Banc ar 31.12.2021 | 11,898.86 |

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31 / 12 / 21 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1002715 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | 1 + 2 | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31 12 2021

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

[~~Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o~~ [ ]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (~~heblaw'r hyn a ddatgelir isod~~ *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

**Llofnodwyd:** I N Jones **Dyddiad:** 29/10/2020

**Enw:** IEUAN JONES

**Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** BA ACCOUNTING AND FINANCE

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad:** | GER Y NANT |
| | 3 MAES DOLAU IDOLE |
| | CAERFYRDDIN SA32 8DQ |

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |

# Accounts

# Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

# Adroddiad Blynyddol
# Ionawr - Rhagfyr 2020

Rhif Elusen 1002715

**Rhagymadrodd**

Crynodeb yw'r adroddiad hwn o'r modd y bu i'r eglwys geisio cyflawni ei nod a'i hamcanion am y flwyddyn 2020, gan olrhain rhai o'r pethau a gyflawnwyd. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb i ni fel eglwys, yn ein gwarchod a'n cynnal am flwyddyn arall a oedd yn gyfnod heriol iawn na welsom ei debyg yn hanes ein heglwys. Cyflwynir crynodeb hefyd o dderbynion a gwariant ariannol yr eglwys am 2020.

**Nod ac amcanion**

Wrth geisio cyflawni ei nod ac amcanion fel elusen mae'r eglwys wedi bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i sicrhau budd cyhoeddus drwy ei gweithgaredd. I'r diben hwn cynhaliwyd cyfarfodydd y Sul a chyfarfod canol wythnos drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn, er fod gyfyngiadau'r cyfnodau clo wedi peri i ni newid dull ein cyfarfodydd am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Hysbyswyd cyfarfodydd y Sul yn wythnosol ar ein gwefan, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, lle y gellir gwrando ar bregethau'r eglwys. Hysbyswyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn hefyd drwy gyfryngau cymdeithasol Trydar a Facebook a darlledwyd negeseuon y Sul ac eraill ar You Tube.

Mae ein cyfarfodydd yn agored i bawb i'w mynychu ond oherwydd y cyfyngiadau ni chafodd nifer o'n cyfarfodydd arbennig arferol eu cynnal eleni.

Nid oedd modd defnyddio adeilad yr eglwys ychwaith i hybu gwaith elusennau lleol drwy gynnal grwpiau crefft misol na chynnal boreau coffi.

**Yr hyn a gyflawnwyd a'r heriau yn 2020**

<u>Y Weinidogaeth</u>

Parhawyd a'r gyfres o bregethau o lyfr y Salmau a chyfres ar lyfr y Gwas ym mhroffwydoliaeth Eseia, ynghyd â phregethau o amrywiol fannau o'r Hen Destament a'r Testament Newydd wrth gyhoeddi'r efengyl.

Mae'r ddau henuriad a'r efengylydd a fu'n pregethu fwyaf aml, yn ddiolchgar am bob cynhaliaeth a diolchwn hefyd am wasanaeth bob un o'r siaradwyr allanol, ryw ddeg ohonynt, a fu mor barod i gynorthwyo'r eglwys yn ystod y flwyddyn. Serch hynny, nid yw sicrhau siaradwyr allanol ar gyfer y Sul yn waith hawdd, wrth i'r to hŷn o bregethwyr heneiddio a lleihau o ran eu nifer.

Efengylu

Effaith y cyfnod clo a'r pandemig yn gyffredinol oedd tarfu'n sylweddol ar batrwm arferol y Parch. Roger Thomas o gysylltu gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yng Nghaerfyrddin a'r cylch. Doedd dim modd ymweld â'r 'Mart' anifeiliaid wythnosol i gysylltu a ffermwyr lleol a masnachwyr eraill nac ymweld â gorsaf Heddlu Dyfed Powys fel caplan. Yn yr un modd roedd y mwyafrif o fusnesau'r dre, gan gynnwys busnesau'r farchnad nwyddau leol, wedi eu cau am gyfnod helaeth neu'n cyfyngu eu cyswllt â cwsmeriaid ac ymwelwyr.

Am yr un rhesymau, ni lwyddwyd ychwaith i ddatblygu gwaith newydd megis cyfarfod dysgwyr i Gristnogion a fyddai am ddysgu ond a fyddai'n agored i eraill, boreau coffi rheolaidd i gefnogi elusen ddyngarol neu gyfarfodydd efengylu amser cinio. Ni chynhaliwyd Gŵyl y Dref na sioeau amaethyddol lleol na chenedlaethol yr oeddem wedi bwriadu eu mynychu a gohiriwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, lle yr oedd y Parch. Roger Thomas yn bwriadu cynorthwyo tim efengylu Mudiad Efengylaidd Cymru.

Er gwaetha'r siomedigaethau hyn, cafwyd nifer o gyfleoedd i wasanaethu mewn angladdau ac i gefnogi unigolion hŷn a bregus a oedd wedi eu cyfyngu i'w cartrefi. Datblygwyd presenoldeb digidol yr Eglwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn sylweddol yn ystod y flwyddyn dan arweiniad y Parch Roger Thomas, a gwelwyd y niferoedd a oedd yn ymuno a'r cyfarfodydd yn rhithiol yn cynyddu, a'r niferoedd a wrandawai ar bregethau a oedd wedi eu darlledu ar y Sul yn cynyddu. Lluniwyd a darlledwyd ar You Tube, gyfweliad â Christion sy'n amlwg ym myd amaeth yng Nghymru a rannodd ei dystioaeth o waith Duw yn ei fywyd.

Oedfaon y Sul

Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Sul yn rhithiol dros y cyfnod clo gan newid yr oedfa nos i gwrdd gweddi. Ailagorwyd yr adeilad ar gyfer oedfaon y bore yn yr haf gan barhau i gwrdd yn rhithiol gyda'r hwyr. Bu'r henuriaid ac efengylydd yr eglwys yn pregethu'n aml yn ystod 2020 gan fod nifer llai o siaradwyr gwadd wedi medru gweinidogaethu i'r Eglwys yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd yr un niferoedd i fynychu'r oedfaon gan gynnwys rhai a oedd yn anghyfarwydd â thechnoleg ac a gawsant eu cyfarwyddo'n ofalus er mwyn eu galluogi i barhau i elwa o weinidogaeth a chymdeithas yr Eglwys.

Ni chynhaliwyd oedfaon cymundeb drwy gydol y cyfnod clo nac ar ôl ailagor yr adeilad.

Cyfarfodydd arbennig

Ni chafwyd cyfleoedd i gynnal oedfaon gwahodd penodol ar achlysuron arbennig. Cynhaliwyd oedfa garolau adeg y Nadolig, er nad oedd modd i'r gynulleidfa ganu fel arfer.

Cyfarfodydd Canol Wythnos

Gan fod y cyfarfod gweddi wedi ei symud i nos Sul o ddiwedd mis Mawrth ymlaen, cynhaliwyd astudiaeth feiblaidd fwy sylweddol ar nosweithiau Mercher gan fanylu ar yr epistol at yr Effesiaid. Rhannwyd y cyfrifoldeb o baratoi ac arwain rhwng yr henuriaid ac efengylydd yr Eglwys a gwerthfawrogwyd y gyfres yn fawr iawn. Parhawyd i neilltuo un nos Fercher y mis i dderbyn adroddiad gan y Parch. Roger Thomas am waith y mis fel modd i weddïo'n benodol am ei waith ac am gysylltiadau cenhadol eraill.

Cyfarfodydd gwragedd

Ni fu cyfarfodydd gwragedd bob pythefnos drwy gydol y cyfnod clo na gweddill y flwyddyn.

Cyswllt â'r gymuned

Siom oedd methu cynnig defnydd adeilad yr eglwys i Gymdeithas Rhandiroedd Caerfyrddin yn ystod y flwyddyn na medru cynnal sesiynau crefftau a bore coffi er budd elusen leol.

Cefnogi gwaith Cristnogol ehangach

Mae'r Eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith MERF trwy gyfraniad blynyddol. Parhawyd i gefnogi gwaith Cymraeg Mudiad Efengylaidd Cymru. Mae'r eglwys wedi parhau i gefnogi gwaith Emmanuel Durand yn Ffrainc. Ymrwymodd yr eglwys i weddïo'n benodol am ddwy wedd ar waith cymdeithas cyfieithu'r beibl - Wycliffe, gan

dderbyn gwybodaeth chwarterol.

Cyswllt ag eglwysi eraill

Ni chynhaliwyd Cymanfa Eglwysi'r De yn 2020. Parhaodd y cyswllt agos ag Eglwys Efengylaidd Saesneg Caerfyrddin gan dderbyn cynnig caredig ganddynt i ddefnyddio ystafell yn eu hadeilad pan effeithiwyd ein hadeilad ryw ychydig gan lifogydd ddechrau'r flwyddyn.

Yr Adeilad

Cytunwyd ar enw newydd i adeilad yr Eglwys sef 'Y Celwrn' i adlewyrchu gofal a ffyddlondeb Duw tuag atom ar hyd y blynyddoedd er gwaetha'r sychder mawr ysbrydol yn ein gwlad.  ( I Brenhinoedd 17 ad. 14/16)

Prynwyd a gosodwyd pwmp dŵr brwnt yn seler yr adeilad gyda chymorth grant gan y Cyngor Sir a gwelwyd ei werth ddiwedd y flwyddyn wrth gadw lefel y dŵr yn seler yr adeilad islaw'r llawr yn ystod adeg o lifogydd yn yr ardal. Bu'r grant hefyd yn fodd i'r Eglwys brynnu gatiau atal llifogydd.

Adroddiad Ariannol

Caed £20,359.29 o weddillion dros wariant ar ddiwedd 2020. Mae'r swm sylweddol o weddillion a oedd wedi crynhoi ers prynu'r adeilad bellach wedi lleihau yn unol â blaenoriaeth yr eglwys o gyflogi gweithiwr. Mae incwm yr eglwys ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal gweithiwr ond gyda chostau eraill, disgwylir y bydd y galw ar ryw gymaint o'r gweddillion yn parhau i'r dyfodol. Gweler y fantolen ariannol amgaeedig am y flwyddyn 2020.



A Parry Davies

(Ar ran ymddiriedolwyr Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin)

Dyddiad : 31/10/21

Eglwys Efengylaidd Caerfyrddin

Cyfrif Derbynion a Gwariant

1af Ionawr 2020 - 31ain Rhagfyr 2020.

| Derbynion | | £ |
|---|---|---|
| Mantol Banc ar 01/01/20 | | 33,820.47 |
| Archebion Banc | | 19,223.58 |
| Casgliadau Rhydd | | 6,003.00 |
| Grant o'r Cyngor Sir | | 2,846.43 |
| Llog ar y gronfa | | 17.54 |
| | | 61,911.02 |

| Gwariant | £ | |
|---|---|---|
| Cyflog y Gweithiwr | 17,304.88 | |
| Treth Incwm | 1,861.20 | |
| Yswiriant Gwladol | 3,452.40 | |
| Costau | 436.97 | |
| Nest (pensiwn) | 1,492.44 | |
| Pregethwyr Gwadd | 550.00 | |
| Gwaith Cenhadol | 5,203.00 | |
| Costau'r Adeilad | 6,352.13 | |
| Nwy,Trydan,Dwr | 2,698.26 | |
| Yswiriant | 1,233.77 | |
| Ad-daliadau | 312.65 | |
| Gwefan,Zoom,BT | 540.03 | |
| Renti Stafell | 40.00 | |
| Costau Banc | 24.00 | |
| Archwilio Cyfrifon | 50.00 | |
| | | 41,551.73 |
| Gweddill Derbynion dros Gwariant | | 20,359.29 |
| Mantol y Banc ar 31.12.2020 | | 20,359.29 |

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | Enw'r Elusen: EGLWYS EFENGYLAIDD CAERFYRDDIN | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31.12.2020 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1002715 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | (cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol) | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu DD / MM / BBBB.

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw (~~heblaw'r hyn a ddatgelir isod~~ *) mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | [signature] | **Dyddiad:** | 28/10/2021 |
| **Enw:** | IEUAN JONES | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | BA ACCOUNTING AND FINANCE | | |
| **Cyfeiriad:** | 41 WAUN BURGESS, CARMARTHEN, SA31 3JL | | |